**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 3ydd Mehefin 2013 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2 o'r gloch y prynhawn.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| J R Skelland (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| J Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

HEFYD YN BRESENNOL:

D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); M Halstead a K V Williams (Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); V DeZouche (KPMG); L Williams (Swyddfa Archwilio Cymru); J Brown (Rheolwr Cyllid); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau).

YMDDIHEURIADAU:

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| L A W Jones | Cyngor Gwynedd |
| P Penlington | Cyngor Sir Ddinbych |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28ain Ionawr 2013 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Arian grant – rhoddodd y DBST wybod i'r Aelodau fod Llywodraeth Cymru bellach wedi cadarnhau'r arian grant ar gyfer gweithgareddau diogelwch cymunedol.

4 GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS A GWIR DDANGOSYDDION DARBODUS 2012-2013

4.1 Mae adroddiad blynyddol y trysorlys yn un o ofynion gweithdrefnau adrodd yr Awdurdod. Mae'n nodi gweithgarwch y trysorlys a gwir Ddangosyddion Darbodus 2012-2013 yn unol â gofynion y Cod Darbodus. Tasg y Pwyllgor Archwilio yw sicrhau y creffir yn effeithiol ar strategaeth rheoli'r trysorlys a'r polisïau, a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân yn seiliedig ar eu canfyddiadau.

4.2 Rhoddodd Sandra Forrest gyflwyniad mewn pedair rhan i helaethu ar yr wybodaeth: Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Economi, Gweithgarwch Benthyca, Gweithgarwch Buddsoddi a Dangosyddion Darbodus.

4.3 Nodwyd y canlynol:

- mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol sy'n cyfyngu ar lefel y risg sy'n gysylltiedig â'i weithgarwch rheoli'r trysorlys
- o ran buddsoddiadau, y flaenoriaeth bob amser yw diogelwch, hylifedd, ac yna arenillion
- roedd y gwariant cyfalaf a wnaeth yr Awdurdod yn 2012-2013 yn ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy, fel y dengys y dangosyddion darbodus a gynhyrchwyd, a'r costau ariannu cyfalaf o'u cymharu â'r gyllideb
- oherwydd yr oedi ar brosiectau Tywyn, Nefyn a Wrecsam, roedd gwariant ar y rhaglen gyfalaf yn llai nag y cyllidebwyd ar ei gyfer
- yn dilyn proses dendro, defnyddiwyd cwmni newydd i ddarparu cyngor ynglŷn â rheoli'r trysorlys – mae Arlingclose wedi cymryd drosodd gan Sector.

4.4 Eglurodd Sandra Forrest nifer o faterion wrth ateb cwestiynau gan Aelodau, ac yna **PENDERFYNWYD argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub fod gwir Ddangosyddion Darbodus 2012-2013 yn cael eu cymeradwyo.**

5 DATGANIAD O SICRWYDD YR ARCHWILIAD MEWNOL BLYNYDDOL 2012/13

5.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno fel rhan o'r gofyniad blynyddol ar yr Awdurdod i gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei system Rheolaeth Fewnol.

5.2 Roedd yr holl waith a gynlluniwyd ar gyfer 2012/13 wedi ei wneud, ac eithrio'r archwiliad o Ddechreuwyr ac Ymadawyr y Gyflogres. Cafodd hwnnw ei ddisodli gan ymchwiliad arbennig a gwaith dilynol ar gais rheolwyr GTAGC. Cadarnhawyd bod yr archwiliadau a gynhaliwyd wedi arwain at farc sicrwydd uchel.

5.3 Roedd yr Archwilydd Mewnol wedi ei fodloni bod y gwaith archwilio mewnol a wnaed, ynghyd â'r wybodaeth gynaliedig o'r sefydliad a'i weithdrefnau, yn caniatáu i ddod i gasgliad rhesymol ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau ATAGC ar gyfer rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu. Am y cyfnod o 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013, roedd gan ATAGC brosesau boddhaol ar gyfer rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol er mwyn rheoli'r modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei amcanion. Er hynny, nodwyd na all y sicrwydd fod yn un gwbl lwyr wrth roi barn ar yr archwiliad; ni all y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ond darparu sicrwydd rhesymol, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn honno, nad oes unrhyw wendidau o bwys heblaw'r rhai a ganfuwyd.

5.4 Holodd y Cadeirydd am ran archwilio mewnol ym mhrosiect Wrecsam. Cadarnhawyd gan y DBST bod archwiliad allanol annibynnol wedi ei gynnal, ac y bydd adroddiad llawn yn cael ei ddarparu i gyfarfod yr Awdurdod ar 17ain Mehefin.

5.5 **PENDERFYNWYD y dylid derbyn datganiad o sicrwydd yr archwiliad mewnol, a'i ddefnyddio i gyfrannu at dystiolaeth a gynhwysir yn natganiad llywodraethu blynyddol 2012/13.**

6 CRYNODEB O WEITHGARWCH ARCHWILIO MEWNOL 2012/13 AC ASESIAD O ANGHENION A CHYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT 2013/14

6.1 Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r gwaith archwilio mewnol yn 2012/13, a gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r asesiad o anghenion archwilio mewnol a chynllun archwilio mewnol drafft 2013/14.

6.2 Lluniwyd tri adroddiad yn ystod 2012/13, yn seiliedig ar y canlynol:-

- Gorsafoedd y System RDS (Sir y Fflint a Wrecsam)
- Credydwyr
- Storfeydd.

6.3 Yn dilyn yr adroddiadau cychwynnol, caiff adroddiad dilynol ei gynnal ryw chwe mis yn ddiweddarach er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu wedi eu cymryd i gywiro unrhyw faterion a oedd yn codi. Nodwyd bod yr argymhellion a oedd yn weddill, ac a oedd wedi eu nodi yn atodiad B, yn mynd rhagddynt ac wedi eu rhoi ar waith erbyn hyn.

6.4 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod 2012/13, boddhaol oedd barn yr Archwiliad Mewnol o'r systemau rheolaeth fewnol a sefydlwyd gan y rheolwyr i reoli'n effeithiol y risgiau a ganfuwyd.

6.5 Cafodd y cynllun blynyddol drafft ar gyfer 2013/14 ei gyflwyno i'r Aelodau, a nodwyd nad oedd y cynllun yn un cwbl haearnaidd, ac y gallai newid o fewn y flwyddyn gan ddibynnu ar amgylchiadau.

6.6 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi crynodeb o weithgarwch archwilio mewnol 2012/13; a**

**(ii) cymeradwyo'r asesiad o anghenion a'r cynllun archwilio mewnol drafft 2013/14.**

7 GWAITH ARCHWILIO PERFFORMIAD A FFIOEDD 2013-14

7.1 Cyflwynodd Lisa Williams o Swyddfa Archwilio Cymru lythyr y Swyddfa ynglŷn â'i gwaith archwilio perfformiad a ffioedd 2013-14. Esboniodd Ms Williams nad oes raid i awdurdodau tân ac achub, yn wahanol i'r awdurdodau lleol, gynnal asesiad corfforaethol llawn bob blwyddyn, ac y penderfynwyd y bydd asesiad corfforaethol yr ATA yn adlewyrchu gwaith rhaglen y Pwyllgor Materion Cenedlaethol. Yn 2012/13, bydd yr asesiad corfforaethol yn seiliedig ar y swyddogaeth Adnoddau Dynol yn y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru.

7.2 Cynhelir astudiaeth wella i edrych ar y cynnydd a wnaed o'i gymharu â dyheadau ac uchelgeision y Gweinidog ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub, fel y mynegwyd yn y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Cymru o 2012 ymlaen.

7.3 Yn ogystal â'r asesiad corfforaethol a'r astudiaeth wella, bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal adolygiadau ar y canlynol:

- y cynlluniau y mae'r Awdurdod wedi eu cyhoeddi ar gyfer cyflawni'r amcanion gwella (yn seiliedig ar gynllun 2013/14)
- yr asesiad o berfformiad y mae'r Awdurdod wedi ei gyhoeddi, gan gynnwys profi a dilysu'r wybodaeth am berfformiad (yn seiliedig ar gynllun 2012/13)
- systemau i sicrhau bod yr wybodaeth am berfformiad yn gywir.

7.4 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys y llythyr, ac mai'r ffioedd am y gwaith a nodir uchod fydd £20,684.**

8 AMLINELLIAD O'R ARCHWILIAD ARIANNOL BLYNYDDOL

8.1 Cyflwynodd Victoria DeZouche o KPMG y ddogfen amlinelliad o'r archwiliad ariannol blynyddol i'r Aelodau. Caiff yr amlinelliad ei lunio bob blwyddyn er mwyn bodloni gofynion y safonau archwilio a'r arferion archwilio priodol, ac mae hefyd yn rhoi crynodeb i'r Awdurdod o'r gwaith archwilio sydd ei angen ar gyfer datganiadau ariannol 2012-2013.

8.2 Er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn edrych ar y cyfrifon ac yn eu hardystio, a bydd angen iddo hefyd gael ei fodloni bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau.

8.3 Dywedodd Ms DeZouche mai da oedd nodi bod y timau cyllid o'r tri awdurdod tân ac achub yn parhau i gydweithio ar y templed cyfrifon. Dylai hwnnw sicrhau mwy o gysondeb rhwng adroddiadau ariannol y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru.

8.4 **PENDERFYNWYD nodi'r ddogfen amlinelliad o'r archwiliad ariannol blynyddol, ac y caiff adroddiad pensiwn ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio.**

9 PERFFORMIAD ARIANNOL 2012-13

9.1 Cyflwynodd Sandra Forrest yr adroddiad, a rhoddodd gyflwyniad i roi trosolwg o berfformiad ariannol yr Awdurdod yn 2012-13. Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi cael y dasg o sicrhau y creffir yn effeithiol ar adroddiadau ariannol a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub yn seiliedig ar unrhyw ganfyddiadau a wnaed.

9.2 Roedd yr adroddiad mewn pedair rhan: adolygiad o'r gwariant refeniw yn 2012-13 o'i gymharu â'r gyllideb, y cronfeydd a'r darpariaethau sydd gan yr Awdurdod, cynlluniau sy'n cael eu hariannu gan grantiau, ac roedd rhan olaf yr awdurdod yn nodi'r gweithgarwch cyfalaf yn y flwyddyn.

9.3 Roedd yr Aelodau'n ymwybodol mai blwyddyn ariannol 2012-13 oedd ail flwyddyn y strategaeth tair blynedd y cytunodd yr Aelodau arni i leihau'r gyllideb yn unol â pholisi'r Llywodraeth Ganolog i leihau gwariant yn y sector cyhoeddus. Llwyddwyd i gyrraedd yr targed arbedion ar gyfer y flwyddyn, sef £815,000, a hynny o ganlyniad i newid y system gylchrestru a gostwng nifer y diffoddwyr tân drwy gyfraddau ymadael naturiol, ymddeoliadau'n bennaf. Cafwyd arbedion ychwanegol hefyd yn ystod y flwyddyn, a hynny o ganlyniad i reoli'r gyllideb yn ofalus a bod yn ymwybodol y bydd angen rhagor o arbedion yn y dyfodol.

9.4 Y prif faes lle y cafwyd tanwariant oedd costau gweithwyr, a hynny oherwydd bod un o swyddi'r prif swyddogion heb ei llenwi ac oherwydd bod y newidiadau i'r system gylchrestru yn golygu bod angen llai o swyddi. Roedd yr arbediad mwyaf ar ddiffoddwyr tân y system RDS oherwydd rhewi'r broses recriwtio, ond mae hyn wedi dod i ben erbyn hyn ac mae 25 o ddiffoddwyr tân wedi eu recriwtio'n ddiweddar i'r system RDS.

9.5 I ateb cwestiwn am yr angen i recriwtio diffoddwyr tân i'r system RDS os oedd llai o danau y llynedd, esboniodd y DBST bod llai yn wir o danau wedi bod, ond bod cynnydd mewn digwyddiadau eraill lle mae angen cymorth diffoddwyr tân, megis llifogydd a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Felly, roedd yn hollbwysig cynnal nifer ddigonol o ddiffoddwyr tân a darparu hyfforddiant a datblygiad er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswydd. Ategodd Cyng. Lowe y sylw hwn, a chanmol y Gwasanaeth am ei waith ar yr agenda atal tanau.

9.6 Dywedodd y DBST wrth yr Aelodau fod hysbysiad wedi dod i law gan Undeb yr FBU eu bod mewn anghydfod gyda'r Llywodraeth ynglŷn â newidiadau i gynllun pensiwn y diffoddwyr tân. Mae Undeb yr FBU yn ceisio gwrthwynebu'r symudiad i godi'r oedran ymddeol i 60. Fe allai hyn gael goblygiadau i'r Awdurdod yn y dyfodol.

9.7 O ganlyniad i reoli'r gyllideb yn ofalus, ni ddefnyddiwyd cronfa gyffredinol yr Awdurdod yn ystod 2012-13, ac o ganlyniad i drosglwyddo tanwariant 2012-13 a'r cronfeydd a glustnodwyd ac nad oedd mo'u hangen yn ystod y flwyddyn, balans newydd y gronfa fydd £1,609,000.

9.8 Mae'r Awdurdod yn gallu dal darpariaethau hefyd, ac mae ganddo'r darpariaethau a ganlyn: pensiynau ar sail afiechyd, ôl-daliadau i ddiffoddwyr tân y system RDS, pensiynau ôl-weithredol i ddiffoddwyr tân y system RDS, a darpariaethau ar gyfer ffioedd proffesiynol. Gofynnodd y Cyng. A Jones am ragor o wybodaeth am y ddarpariaeth ar gyfer ffioedd proffesiynol ac esboniwyd mai ffioedd ar gyfer prosiect Wrecsam oedd y rhain. Gofynodd y Cyng. Jones am eu hailenwi'n ffioedd prosiect Wrecsam yn yr atodiadau.

**9.9 PENDERFYNWYD argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub fod y tanwariannau'n cael eu trosglwyddo i'r cronfeydd a'r darpariaethau fel y nodir isod :**

| | |
|---|---|
| Cyfraniad i'r Ddarpariaeth Ffioedd (Wrecsam) | £880,400 |
| Cyfraniad Refeniw i Gyfalaf (Glannau Dyfrdwy) | £120,000 |
| Cyfraniad i Ddarpariaeth (Pensiynau'r System RDS) | £300,000 |
| Cyfraniad i Gronfeydd a Glustnodwyd | £216,000 |
| Cyfraniad i'r Gronfa Gyffredinol | £ 32,789 |